# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 18 Mai 2015. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | David Cole | Adran Etholiadol: | Penyrheol |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

- Sefydlais barth 20 mya ym Mhengelli i reoli cyflymder traffig trwy'r pentref.
- Cyflwynais Fwrsari Leigh Halfpenny mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Penyrheol i gydnabod a gwobrwyo'r chwaraewr gorau/chwaraewraig orau mewn unrhyw flwyddyn benodol.
- Bues i'n gweithio gyda swyddogion i ddiogelu rhan o'r ffedog y tu allan i siop NISA ar Heol Frampton er mwyn atal damwain a anafodd weithiwr rhag digwydd eto.
- Bues i'n gweithio gyda rheolwyr Ysbyty Gorseinon i ddatrys problemau gyda pharcio a diogelwch y wal ar y terfyn a'r tu allan i'r ysbyty.
- Bues i'n gweithio gyda busnesau lleol, aelodau pwyllgorau, cyngor y dref, yr heddlu ac Adran Trwyddedu Dinas Abertawe i gyflwyno ail garnifal cymunedol yn 2014 a myfi oedd y trysorydd.
- Roeddwn yn cyfrannu at y broses o ddatblygu a sefydlu Parciau Cyfeillion Gorseinon sy'n cynnwys Parc y Werin, Parc Melin Mynach a Gerddi Argyle.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 17 | 94 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldebau | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Lleoedd | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 22 | / | 22 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 | / | 2 | 100 | % |
| YN GYFFREDINOL | 111 | / | 112 | 99 | % |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Tai Fforddiadwy | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Meysydd Parcio | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Diwylliant Corfforaethol | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Planning Services Scrutiny Working Group | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Llywodraethu Ysgolion (cyn-ymchwiliad) | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 3 | / | 3 | 100 | % |

| Cyfarfodydd Craffu parhad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 1 | / | 1 | 100 | % |
| YN GYFFREDINOL | 27 | / | 28 | 96 | % |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**
Roeddwn yn aelod o'r canlynol: Panel Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (AoHNE – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol); Uned Gydnerthu ar y cyd â chynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; Pwyllgor Codi Arian Cronfa Goffa'r Is-swyddog Edgar Evans; Cynullydd y Gweithgor Craffu Gwasanaethau Cynllunio.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**
Bues i'n ymdrin â chwynion etholwyr ac yn cydgysylltu â'r Swyddfa Gartref, yr heddlu ac asiantaethau eraill i liniaru problemau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, difrod i eiddo, anghydfodau am derfynau, draenio a chasglu sbwriel. Diffygion a adroddwyd - goleuadau stryd cynnal a chadw troedffyrdd (tyllau), materion amgylcheddol (tipio anghyfreithlon). Draenio - lliniarwyd problemau draenio lle bo angen e.e. Heol Pontarddulais gerllaw Ysgol Gyfun Penyrheol, Waun-gron, Heol y Pentre. Des i'n aelod o bwyllgor cynllunio newydd a sefydlwyd yn 2015 a chwblheais yr hyfforddiant perthnasol er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau'n effeithiol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**
Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
07/04/2015 - Ymwybyddiaeth Masnachu Pobl a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
12/03/2015 - Rôl Cynghorwyr wrth Gynllunio: Priodoldeb ac Arfer Da
29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
09/12/2014 - Difenwi
25/11/2014 - Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad
19/11/2014 - Rôl Aelodau Etholedig wrth Gefnogi a Hyrwyddo Sipsiwn (Roma) a Theithwyr
13/10/2014 - Diogelu
04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl Rheolwr Data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
Mynychais i gyfarfodydd rheolaidd â'r heddlu, cymorthfeydd chwarterol ym Mhenyrheol a Phengelli a phob cyfarfod Cyngor Tref Gorseinon a Phenyrheol (sef presenoldeb 100% am yr ail flwyddyn yn olynol). Hefyd mynychais i gyfarfodydd Cyngor Cymuned Pengelli. Ynghyd â chydweithwyr ar Gyngor Tref Gorseinon a Phenyrheol, sicrheais i gyfarpar chwarae ac ymarfer ychwanegol gael ei osod ym Mharc y Werin. Fel un o lywodraethwyr Ysgol Gynradd Penyrheol, roeddwn yn rhan o grŵp bach a sefydlodd y gyfarfod AID (Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch).Ystyriwyd hyn yn gryfder sylweddol pan luniwyd adroddiad diwethaf ESTYN. (neu pan gynhaliwyd arolygiad diwethaf ESTYN?)

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 19 Mai 2015 |
|---|---|